

Ein cais am Drwydded Amgylcheddol Gweithgarwch Hylogsi

Mehefin 2018



Pam mae angen cyfarpar hylogsi?

Mae Horizon yn bwriadu adeiladu a rhedeg Wylfa Newydd, Gorsaf Bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn.

Mae dyluniad yr Orsaf Bŵer yn cynnwys rhywfaint o offer hylogsi confensiynol (heb fod yn niwclear). Mae'r rhain yn cynnwys bwyleri codi-stêm, sy'n darparu stêm i weithredu rhywfaint o'r cyfarpar proses ac ar gyfer gwresogi, yn ogystal â generaduron wrth gefn, sy'n cyflenwi trydan i'r Orsaf Bŵer os collir y cyflenwad o'r grid cenedlaethol. Mae rhai pypiau dŵr tân ar y safle hefyd. Bydd yr holl offer hylogsi yn defnyddio tanwydd disel.

Bydd y bwyleri codi-stêm yn cael eu gweithredu drwy gydol y flwyddyn i gyflenwi'r stêm sydd ei angen yn yr Orsaf Bŵer; bydd y galw am stêm yn amrywio yn ôl y gofynion cyfarpar proses a gwresogi.

Bydd y generaduron wrth gefn yn cael eu gweithredu os bydd yr annhebygol yn digwydd a bod cyflenwad o'r grid cenedlaethol yn cael ei gollu, er mwyn cyflenwi pŵer trydanol i'r pypiau a'r cyfarpar arall sydd ei angen er mwyn caniatáu i'r Orsaf Bŵer barhau i weithredu'n ddiogel ac yn saff.

Er mwyn sicrhau y bydd y generaduron wrth gefn yn gweithio yn ôl yr angen, byddan nhw'n cael eu cynnal a'u cadw a'u profi bob mis. Ar ôl eu gosod a'u comisiynu, bydd pob generadur wrth gefn yn cael ei brofi am oddeutu 55 awr y flwyddyn.

Mae Horizon angen Trwydded Amgylcheddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gweithredu'r bwyleri, y generaduron wrth gefn a'r cyfarpar cysylltiedig.

Ein cais am Drwydded Amgylcheddol Gweithgarwch Hylosgi

Y cyfarpar hylosgi

Dyma'r gwahanol fathau o offer hylosgi confensiynol y bydd eu hangen yng Ngorsaf Bŵer Wylfa Newydd:

Bwyleri

- bydd chwe bwyler codi-stêm.

Generaduron wrth gefn

- **generaduron argyfwng:** bydd chwe Generadur Disel Argyfwng, y bydd eu hangen i gyflenwi pŵer er mwyn cau'r adweithydd niwclear yn ddiogel os collir pŵer oddi ar y safle;
- **generaduron adeilad wrth gefn:** byddai pedwar o'r rhain yn yr adeilad wrth gefn. Rhaid eu cael er mwyn cyflenwi pŵer i gyfarpar hollbwysig arall drwy system ar wahân; a

- **generaduron wrth gefn ategol:** bydd pedwar o'r rhain yn cyflenwi pŵer ar gyfer systemau diogelwch y safle a'r systemau argyfwng eraill nad ydyn nhw'n ymwneud yn uniongyrchol â diogelwch yr adweithydd, fel cyfarpar diogelu'r amgylchedd, cyfleusterau ymladd tân a seilwaith sy'n cefnogi'r safle.

Cyfarpar arall

Yn ogystal â hyn, bydd tanciau storio tanwydd ac olew cysylltiedig, dau bwmp dŵr tân disel a systemau oeri ar gyfer y generaduron. Bydd simneiau yn gwagio'r nwyon.

Ein cais i Gyfoeth Naturiol Cymru

Mae Horizon wedi gwneud cais i Gyfoeth Naturiol Cymru am Drwydded Amgylcheddol Gweithgarwch Hylosgi. Mae ein cais yn disgrifio'r offer hylosgi a'i weithrediad mewn mwy o fanylder technegol, gan gynnwys:

- sut byddwn ni'n dewis ac yn gweithredu'r offer hylosgi er mwyn rheoli allyriadau a sicrhau bod yr offer yn gweithio'n effeithlon;

- sut byddwn ni'n rheoli'r deunyddiau crai cysylltiedig (fel tanwydd disel), defnyddio dŵr a deunyddiau gwastraff;
- allyriadau i'r aer a lefelau sŵn, ac asesiad o effaith amgylcheddol yr allyriadau; a
- sut byddwn ni'n monitro ac yn rheoli gweithrediad yr offer.

Y camau nesaf

Ar ôl cyflwyno ein cais, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ac yn cynnal ei asesiad ei hun o'r effeithiau amgylcheddol posibl cyn ystyried a yw am gyhoeddi Trwydded Amgylcheddol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn www.horizonnuclearpower.com/hafan weld copi o'n cais llawn, yn ogystal â'r dogfennau ategol.